# CHWARAE GEMAU YN NHIRWEDD CENEDLAETHOL LLŶN

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

## TROSOLWG

Mae dysgwyr yn ystyried gemau bwrdd y maen nhw wedi'u chwarae, gan ystyried dwy gêm wahanol yn benodol, er mwyn datblygu meini prawf llwyddiant ar gyfer yr hyn sy'n gwneud gêm fwrdd dda. Maent yn archwilio rhinweddau arbennig Tirwedd Cenedlaethol Llŷn ac yn cymryd ffotograffau sy'n arddangos ei rhinweddau arbennig. Maent yn myfyrio ar y weledigaeth ar gyfer Tirwedd Cenedlaethol Llŷn erbyn 2040 ac yn datblygu cyngor i reolwyr y dirwedd a allai eu cynorthwyo i gyflawni'r weledigaeth hon. Gan gymryd eu dysg i ystyriaeth, maent yn diwygio ac yn gwella eu meini prawf llwyddiant o Dasg 1. Mae dysgwyr yn creu eu gêm fwrdd ar ôl datblygu map meddwl o'u holl syniadau. Yn dilyn gwirio eu gêm fwrdd ar sail eu meini prawf llwyddiant, maent yn gofyn i eraill chwarae'r gêm cyn gwneud unrhyw addasiadau terfynol.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yun unig).
Dulliau o gymryd ffotograffau (e.e. ffôn clyfar, tabled, camera).
Defnyddiau a phethau ar gyfer gwneud gemau bwrdd, e.e. cardbord, ffyn, dis, ac ati.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH SY'N GWNEUD GÊM FWRDD DDA?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw yn y dasg hon yn ystyried gemau bwrdd y maen nhw wedi'u chwarae, gan gynnwys dwy gêm wahanol, er mwyn datblygu meini prawf llwyddiant ar gyfer yr hyn sy'n gwneud gêm fwrdd dda.

### Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa gemau bwrdd ydych chi wedi'u chwarae?
- Pa un oedd eich hoff gêm fwrdd? Pam?
- Pa un oedd y gêm fwrdd roeddech chi'n ei hoffi leiaf? Pam?
- Pa gêm fwrdd wnaethoch chi ei chwarae ddiwethaf? Beth oeddech chi'n ei hoffi am y gêm hon?

## Sgrîn 4

Gwahoddwch y dysgwyr i restru eu meini prawf llwyddiant ar gyfer yr hyn sy'n gwneud gêm fwrdd dda, ar y daflen. Yna, dylent gadw'r daflen hon yn agored, gan y byddant yn ychwanegu ati trwy gydol y dasg.

## Sgrîn 5

Ar y sgrîn hon, rhoddir enghraifft o gêm fwrdd. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y testun a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n ei hoffi am y gêm fwrdd hon?
- Beth nad ydych chi'n ei hoffi cymaint am y gêm fwrdd hon?
- Pa feini prawf llwyddiant newydd allech chi eu hychwanegu at eich rhestr?

Yna, dylent ychwanegu unrhyw feini prawf llwyddiant newydd at y daflen.

## Sgrîn 6

Ar y sgrîn hon, ceir enghraifft arall o gêm fwrdd. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y testun a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n ei hoffi am y gêm fwrdd hon?
- Beth nad ydych chi'n ei hoffi cymaint am y gêm fwrdd hon?
- Pa feini prawf llwyddiant newydd allech chi eu hychwanegu at eich rhestr?

Yna, dylent ychwanegu unrhyw feini prawf llwyddiant newydd at y daflen.

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar eu meini prawf llwyddiant ar y daflen a dewis y pump neu'r chwech sydd ar ben eu rhestr. Yna, gallant ddileu'r holl feini prawf eraill o'r rhestr.

Eglurwch y byddan nhw'n defnyddio'r meini prawf hyn sydd ar ben eu rhestr i'w helpu i asesu'r gêm y byddan nhw'n ei dylunio a'i gwneud yn y gweithgaredd hwn.

Mae angen i ddysgwyr arbed eu taflen i'w defnyddio yn y dasg nesaf.

TASG 2

# EIN TIRWEDD

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n archwilio rhinweddau arbennig Tirwedd Cenedlaethol Llŷn yn y dasg hon, gan gymryd ffotograffau sy'n dangos ei rhinweddau arbennig, ac yn edrych ar y weledigaeth ar gyfer y dirwedd erbyn 2040 er mwyn iddyn nhw allu diwygio a gwella eu meini prawf llwyddiant o Dasg 1.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr fod gan Dirwedd Cenedlaethol Llŷn ei rhinweddau arbennig ei hun. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n ei wybod am Dirwedd Cenedlaethol Llŷn?
- Beth ydych chi'n feddwl yw rhinweddau arbennig Tirwedd Cenedlaethol Llŷn? Rhestrwch eich syniadau.

## Sgrîn 4

Yma, cyflwynir rhinweddau arbennig Tirwedd Cenedlaethol Llŷn ynghyd â syniadau'r dysgwyr eu hunain. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rai o'r rhinweddau arbennig hyn sy'n debyg i'ch syniadau chi?
- Pa rai o'r rhinweddau arbennig hyn sydd ddim ar eich rhestr chi?
- Beth sy'n eich synnu am y rhinweddau arbennig hyn? Pam?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod eu gêm fwrdd am fod yn seiliedig ar Dirwedd Cenedlaethol Llŷn ac y bydd yn cynnwys ffotograffau o'r dirwedd a'i rhinweddau arbennig. Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y map a'r rhinweddau arbennig ac yna dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble ar y map allech chi weld pob un o'r rhinweddau arbennig?
- Pe gallech ddewis un lleoliad yn unig i gymryd eich ffotograffau, ble fyddai hwnnw?

## Sgrîn 6

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gymryd ffotograffau o'r rhinweddau arbennig.

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar eu ffotograffau, edrych eto ar y rhinweddau arbennig a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ffotograffau sy'n dangos y rhinweddau arbennig orau?
- Faint o rinweddau arbennig Tirwedd Cenedlaethol Llŷn ydych chi wedi cymryd ffotograffau ohonynt?
- Pa rai yw eich hoff ffotograffau? Pam?

Yna, dylai'r dysgwyr storio eu hoff ffotograffau yn ddigidol.

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd eu gêm yn ymgais i addysgu eraill am Dirwedd Cenedlaethol Llŷn. Gofynnwch iddynt fyfyrio ar y weledigaeth ar gyfer Llŷn yn y flwyddyn 2040 a thrafod y cwestiwn canlynol.

**Cwestiwn ffocws**

- Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, beth mae angen i reolwyr Tirwedd Cenedlaethol Llŷn ei wneud, yn eich barn chi?

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw fel dosbarth yn mynd i archwilio'r ffactorau sy'n effeithio ar weledigaeth Tirwedd Cenedlaethol Llŷn ar gyfer 2040.

Gofynnwch i bob grŵp ymchwilio i un ffactor a datblygu cyngor i reolwyr y dirwedd ynghylch sut i gyflawni'r weledigaeth.

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n cyflwyno'r cyngor hwn i'r dosbarth mewn cyflwyniad dwy funud o hyd.

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i ymchwilio i'r ffactor a roddwyd iddynt, gan ddefnyddio'r grid CwAMFf i ateb y cwestiynau.

## Sgrîn 11

Gofynnwch i bob grŵp baratoi eu cyflwyniad sy'n cynnwys cyngor i reolwyr y dirwedd ar sut i gyflawni'r y weledigaeth. Gallai'r cyflwyniad fod yn ddigidol neu'n gopi caled (e.e. poster, taflen, ffeithlun, ac ati). Er mwyn helpu'r dysgwyr i gynllunio, gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut byddwch chi'n cyflwyno'r wybodaeth rydych chi wedi'i chasglu? Pam?
- Ble byddwch chi'n chwilio am ddelweddau o ansawdd da i'w cynnwys? Pam? A fyddai'r delweddau hyn yn rhad ac am ddim? Sut ydych chi'n gwybod? A fyddai hawlfraint arnynt? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- A ydych chi wedi casglu digon o wybodaeth i gyflwyno rhywfaint o'ch cyngor yn fathemategol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut byddwch chi'n sicrhau mai dim ond dwy funud yw hyd eich cyflwyniad?

## Sgrîn 12

Gwahoddwch bob grŵp i gyflwyno eu cyngor i reolwyr Tirwedd Cenedlaethol Llŷn.

## Sgrîn 13

Eglurwch fod y dysgwyr yn mynd i ddefnyddio'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu am y rhinweddau arbennig, y ffotograffau a'r weledigaeth i'r dirwedd erbyn 2040, er mwyn myfyrio ar eu meini prawf llwyddiant ar gyfer yr hyn sy'n gwneud gêm fwrdd dda.

Gofynnwch iddynt agor eu taflen 'Meini prawf llwyddiant' o Dasg 1 ac ychwanegu unrhyw feini prawf newydd y bydd angen iddynt eu dilyn er mwyn gwneud gêm fwrdd dda ynghylch Tirwedd Cenedlaethol Llŷn.

TASG 3

# DYLUNIO EICH GÊM FWRDD

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am greu eu gêm fwrdd ar ôl datblygu map meddwl o'u holl syniadau. Yn dilyn gwirio'r gêm fwrdd mewn perthynas â'u meini prawf llwyddiant, maent yn gofyn i eraill chwarae'r gêm, cyn gwneud unrhyw addasiadau terfynol.

## Sgrîn 3

Gwahoddwch barau o ddysgwyr i ymuno â phâr arall a chymharu eu taflenni meini prawf llwyddiant ar gyfer yr hyn sy'n gwneud gêm fwrdd dda ynghylch Tirwedd Cenedlaethol Llŷn. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor debyg yw eich meini prawf llwyddiant?
- Beth sy'n wahanol am eich meini prawf llwyddiant?
- Pa feini prawf llwyddiant y dylech chi eu defnyddio ar gyfer datblygu eich gêm fwrdd? Pam?

Gwahoddwch y dysgwyr i deipio meini prawf llwyddiant eu grŵp yn y blwch penodol.

## Sgrîn 4

Gofynnwch i bob grŵp o ddysgwyr lunio map meddwl er mwyn dangos eu holl syniadau ar gyfer eu gêm fwrdd, cyn iddyn nhw ddewis y syniadau gorau a chreu eu gêm. Er mwyn dechrau meddwl am agweddau penodol, gallen nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw nod eich gêm?
- Sut y gallai chwaraewyr ennill y gêm? Beth fyddai angen iddynt ei wneud?
- Sut y gallai chwaraewyr symud yn eich gêm fwrdd? A fyddai angen offer arall arnynt, fel dis, troellwyr ac ati?
- Sut olwg fydd ar y bwrdd chwarae? Pam?
- Beth fydd maint eich bwrdd chwarae? Pam?
- Sut y gellid gosod cynnwys y bwrdd? A fydd gwahanol adrannau iddo? Sut olwg fydd ar yr adrannau?
- Beth allech chi ei wneud er mwyn sicrhau fod y bwrdd yn edrych yn ddiddorol?
- Pa rai o'ch ffotograffau o'r rhinweddau arbennig a storiwyd gennych, allech chi eu defnyddio? Sut allech chi eu defnyddio?
- Sut allech chi fapio'r llwybr trwy'r gêm fwrdd? Pam ei wneud fel hyn?

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallai eich gêm fwrdd ganolbwyntio ar rinweddau arbennig a gweledigaeth Tirwedd Cenedlaethol Llŷn erbyn 2040?
- Pa ddarnau allai fod eu hangen ar gyfer eich gêm? Sut allech chi ddynodi'r darnau?
- Pa gardiau allech chi eu hysgrifennu ar gyfer eich gêm? Sawl set o gardiau allech chi eu paratoi? Pam?
- Pa fathau o gardiau allech chi eu paratoi? A fyddai'r cardiau'n rhai manteisiol neu'n anfanteisiol, neu'r ddau?

Yna, dylai'r dysgwyr ychwanegu eu syniadau at y map meddwl.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fathau o reolau allech chi eu cael ar gyfer chwarae'r gêm?
- Faint o chwaraewyr allai chwarae'r gêm?
- Pa strategaethau fyddai eu hangen ar chwaraewr i ennill y gêm?

Yna, dylent ychwanegu eu syniadau at y map meddwl.

## Sgrîn 7

Gofynnwch i bob grŵp benderfynu ar fanylion eu gêm fwrdd gan ddefnyddio eu syniadau o'r map meddwl. Yna, dylent dynnu llun y bwrdd a'r darnau chwarae, yn fras. Dylent hefyd ddrafftio set o reolau ar gyfer chwarae'r gêm.

Yna, gwahoddwch y dysgwyr i wirio eu penderfyniadau yn erbyn eu meini prawf llwyddiant.

Awgrymwch eu bod yn addasu eu gêm, os oes angen, fel ei bod yn cyd-fynd yn dda â'u meini prawf llwyddiant.

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr wneud eu gêm.

## Sgrîn 9

Gwahoddwch y dysgwyr i ofyn i grŵp arall geisio chwarae eu gêm. Wrth iddynt chwarae, awgrymwch fod y dysgwyr yn arsylwi ar bethau sy'n gweithio'n dda ac yn nodi unrhyw rannau o'r gêm sydd ddim yn gweithio cystal.

Dylai'r grŵp sy'n chwarae'r gêm roi cyngor ar...

- Pa mor dda wnaeth y gêm weithio.
- Sut y gellid gwella'r gêm o ran y pethau hyn:
    - bwrdd
    - darnau
    - rheolau.
- Pa mor dda y llwyddodd y gêm i gyflawni'r meini prawf llwyddiant.

Gofynnwch i'r dysgwyr wneud unrhyw addasiadau i'w gêm, er mwyn ei gwella.

## Sgrîn 10

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw ddefnyddio'r triongl myfyrio ar gyfer meddwl sut y gwnaethon nhw ddylunio a gwneud eu gêm fwrdd.

Gwahoddwch y dysgwyr i lusgo a gollwng y termau a ddarperir er mwyn dangos eu meddyliau ac i ystyried pa strategaethau eraill a ddefnyddiwyd ganddynt, ac yna i gofnodi eu syniadau.